# Galw am dystiolaeth

## Adolygiad o'r defnydd o saethu ar dir sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Galw am Dystiolaeth

### 1. Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i bolisi ynglŷn â defnyddio arfau tân ar dir rydym yn berchen arno neu'n ei reoli.

Er mwyn helpu i lywio ein hadolygiad, rydym yn gofyn am dystiolaeth gan bartïon sydd â diddordeb ynglŷn â defnyddio arfau tân ar dir mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei reoli. Rydym yn ceisio tystiolaeth sy'n ein helpu i wirio a yw gweithgareddau saethu'n ein helpu i gyflawni ein diben yn unol ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a ph'un a ydynt yn cyfrannu at amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae tir lle mae amryw hawliau argadwedig yn berthnasol, megis hawliau saethu, y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, gan na all Cyfoeth Naturiol Cymru rwystro pobl rhag arfer yr hawliau hyn.

### 2. Cefndir

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o rolau a chyfrifoldebau lle mae arfau tân yn cael eu defnyddio yn unol ag amrywiaeth o brotocolau, safonau a chanllawiau sydd eisoes yn bodoli.

- Fel rheolwr tir, mae angen inni gyfyngu'r difrod gan blâu er mwyn amddiffyn ein hamcanion rheoli tir, gan gynnwys gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig, rhywogaethau a chynefinoedd sydd â blaenoriaeth, a gallu cynhyrchiol.
- Rydym hefyd yn ystyried cynigion gan drydydd partïon ynglŷn â gweithgareddau ar y tir rydym yn ei reoli.
- Mae amgylchiadau perthnasol sy'n cynnwys y defnydd o saethu lle mai ni yw darparwr Cyngor Gwarchod Natur Statudol.
- Rydym yn gweithredu fel y rheoleiddiwr ar gyfer ceisiadau trwydded perthnasol ar gyfer tir mae eraill yn berchen arno.

Gyda chyflwyniad deddfwriaeth newydd, rydym am fod yn sicr bod arfau tân yn cael eu defnyddio am y rhesymau cywir, yn yr amgylchiadau cywir, ac yn y ffordd orau ag y bo modd.

Mae nifer o bartïon sydd â diddordeb wedi lleisio pryderon yn ddiweddar ynglŷn â materion lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â saethu ffesantod ar dir rydym yn ei reoli. Rydym yn adolygu'r defnydd o arfau tân, i gynnwys ystyried hyfywedd a chanlyniadau dulliau eraill.

## 3. Tystiolaeth mewn cyd-destun

Yn rhan o'n cylch gwaith ni, rydym yn rheoli rhai darnau o dir rydym ninnau'n berchen arnynt a rhai darnau o dir rydym yn eu rheoli ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwneud hyn er mwyn darparu manteision economaidd ac amgylcheddol ar gyfer pobl Cymru. Rydym yn gofyn ichi gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â defnyddio arfau tân yn rhan o'n cylch gwaith rheoli tir, fel y mae'n ymwneud â chyflawni **ein diben** trwy weithredu egwyddorion **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** er mwyn uchafu ein cyfraniad at **amcanion lleisiant** Cymru.

**Diben** Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.[1] Byddwn yn gweithredu set benodol o egwyddorion rheoli'n gynaliadwy wrth inni uchafu ein cyfraniad at yr amcanion llesiant. Mae ein diben cyfreithiol yn cael ei amlinellu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Rydym yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Gallwch ddysgu mwy am yr hyn rydym yn ei wneud trwy fynd i'n gwefan ni.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol inni weithredu **Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** ym mhob peth rydym yn ei wneud. Gallwch ddysgu mwy am ein dull ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy fynd i'n gwefan ni. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth yn **Atodiad 1**.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ei gwneud yn ofynnol inni gyflawni ein cylch gwaith yn unol ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Mae datblygiad cynaliadwy yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau gweithredu, yn unol ag egwyddor datblygiad cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r **amcanion llesiant**. Gallwch ddysgu mwy am ein dull ar gyfer gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy fynd i'n gwefan ni.  Rhoddir rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth yn Atodiad 2.

Rydym yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r tir rydym yn ei reoli ar gyfer y bobl, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau yn y ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth.

Fel rheolwr tir, mae hyn yn golygu ystyried y ffordd orau o ddefnyddio dull cydgysylltiedig o reoli ein hadnoddau naturiol, er mwyn creu amgylchedd iach a chydnerth sy'n gallu cynnal llwyddiant economaidd a chymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth gynnal yr adolygiad ffurfiol, byddwn yn ymgynghori'n agored am y dystiolaeth rydym yn ei chasglu i lywio ein penderfyniad.

Rydym yn gwybod y bydd barn pobl wahanol ar arfau tân yn amrywio, a dyma pam rydym am fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'r dystiolaeth rydym yn ei chasglu a'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

## 4. Defnyddio arfau tân

Mae arfau tân yn cael eu defnyddio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### 4.1 Rheoli plâu

Gall rhai rhywogaethau gael effaith ar yr amcanion ar gyfer ein gwaith rheoli'r tir. Mae ein hamcanion yn cynnwys gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol (megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a rhywogaethau Atodlen 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru)) a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol. Yn ogystal, rydym yn lleihau'r difrod gan blâu sy'n cyfyngu gallu'r tir rydym yn ei reoli i fodloni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, ac i gynnal ei gapasiti i roi amrywiaeth o fanteision i bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys potensial economaidd cynhyrchion pren o ansawdd trwy ein gwaith o reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rheoli niferoedd ceirw gwyllt (rhywogaethau brodorol ac anfrodorol) i leihau'r effaith maent yn ei chael ar gyflawni amcanion 'Strategaeth Coetiroedd i Gymru' Llywodraeth Cymru 2009. Mae'r strategaeth yn ceisio cynyddu’r gorchudd coetir yng Nghymru â rhagor o goed llydanddail, amrywiaeth fwy o goetiroedd i wella eu cydnerthedd (er enghraifft, rhag newid hinsawdd, plâu a chlefydau), a rhagor o adfywiad o goetiroedd trwy blannu ac adfywio naturiol. Mae'r gwaith o reoli poblogaethau ceirw gwyllt yn cael ei gyflawni'n unol â 'Strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt' Llywodraeth Cymru 2011. Mae'r gwaith rheoli'n cael ei gyflawni gan ein staff, sydd wedi cael eu hyfforddi'n drwyadl iawn ac sy'n defnyddio'r safonau gorau i sicrhau lles anifeiliaid.

Rydym yn rheoli llawer o safleoedd wedi'u dynodi ar sail eu gwerth gwarchod natur arbennig, ac mae'n ofynnol inni fynd i'r afael â ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar gynefinoedd a rhywogaethau y cafodd y safle ei ddynodi ar eu sail. Gall hyn gynnwys mesurau rheoli ar gyfer rhywogaethau brodorol nad ydynt o dan reolaeth a rhywogaethau anfrodorol. Lle nad yw'n bosibl defnyddio unrhyw ddull arall yn effeithiol i leihau'r effeithiau hyn, mae arfau tân yn cael eu defnyddio er mwyn, er enghraifft, rheoli mincod ar safleoedd lle mae llygod pengrwn y dŵr yn bresennol.

### 4.2 Y defnydd o dir Cyfoeth Naturiol Cymru gan drydydd partïon

Rydym yn ystyried ceisiadau gan drydydd partïon i gynnal gweithgareddau ar y tir rydym yn ei reoli. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn prydlesu tir coedwig i drydydd partïon at ddibenion saethu ffesantod. Rhaid i'r holl weithgareddau saethu gael eu rheoli yn unol â safonau ymarfer gorau gyda chynllun rheoli y cytunir arno, gan gynnwys mesurau diogelwch cyhoeddus. Nid yw'r un o'r prydlesi'n rhwystro mynediad cyhoeddus nac ein buddiannau ni wrth inni reoli'r tir, e.e. cynhyrchu coed.

Mae ardaloedd sylweddol ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd ar brydles, ac mae'r landlord wedi cadw amryw hawliau. Gall hyn gynnwys hawliau saethu. Ni allwn rwystro deiliaid yr hawliau hyn rhag eu harfer. Felly, mae'r meysydd hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

Mae darnau ychwanegol o dir rydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli lle mae'r gweithredoedd neu’r cytundebau prydlesu'n ei gwneud yn ofynnol inni brydlesu'r hawliau i saethu.

### 4.3 Hela eithriedig

Mae gennym gyfrifoldebau cyfreithiol i reoli rhai plâu a all fod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a allai beri difrod i dda byw neu gnydau ar ffermydd cyfagos. Mae'n bosibl y gallai

peidio â gwneud hynny'n arwain at hawliadau cyfreithiol yn ein herbyn. Mae'r Ddeddf Hela (2004) yn darparu ar gyfer hyn trwy 'hela eithriedig'.

Ni fyddwn yn ystyried dyroddi trwydded ond pan fydd tirfeddiannwr cyfagos yn dioddef colled wirioneddol, neu pan fydd ganddo'r risg o golled o ganlyniad i ysglyfaethu gan lwynogod neu famaliaid gwyllt eraill sy'n dod o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Cyn inni ddyroddi trwydded, bydd yn rhaid i ddarpar ddeiliad y drwydded ddarparu tystiolaeth ddogfennol gan y tirfeddiannwr cyfagos bod risg o'r fath.

## 5. Galw am dystiolaeth

Yn rhan o'r adolygiad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwahodd rhanddeiliad i gyflwyno tystiolaeth i lywio'r adolygiad. Dylai'r dystiolaeth ystyried y defnydd o arfau tân ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn erbyn egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a’r cyfraniad at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Mae mathau derbyniol o dystiolaeth fel a ganlyn:

- ☑ Gwaith a gyhoeddwyd/mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid
- ☑ Papurau ac adroddiadau technegol/ymchwil
- ☑ Adroddiadau gan asiantaethau llywodraethol/grwpiau ymchwil neu bwyllgorau, papurau gweithio
- ☑ Cofnodion cynadleddau
- ☑ Cyhoeddiadau swyddogol
- ☑ Cyhoeddiadau academaidd
- ☑ Cyhoeddiadau masnach
- ☑ Astudiaethau arsylwadol – hanesyddol neu ddiweddar
- ☑ Adolygiadau systematig
- ☑ Barn arbenigol heb arfarniad beirniadol – dim ond os yw'n cael ei chyflwyno gyda thystiolaeth o aelodaeth broffesiynol o gorff proffesiynol cydnabyddedig megis Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd

### Mae mathau o dystiolaeth nas derbynnir fel a ganlyn:

- ☒ Cyhoeddiadau poblogaidd
- ☒ Canfyddiadau storïol
- ☒ Barn pobl
- ☒ Syniadau

Ystyriwch yr awgrymiadau yn **Nhabl 1**, a roddir dim ond fel awgrymiadau defnyddiol. Ni chyfyngir chi i ddarparu tystiolaeth mewn perthynas â'r cwestiynau hyn.

**Tabl 1**
**Awgrymiadau i'ch helpu i benderfynu a yw eich tystiolaeth yn berthnasol i'n hadolygiad ni**

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol/Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn | Rheoli plâu | Gweithgareddau trydydd partïon | Hela eithriedig |
| --- | --- | --- | --- |

| Gynaliadwy | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | A yw'r defnydd o arfau tân i reoli plâu'n cyfrannu at economi Cymru? | A oes gennych dystiolaeth sy'n dangos bod saethu/defnyddio arfau tân yn darparu cyfleoedd cyflogaeth neu'n cyfrannu at ddatblygu poblogaeth fedrus? | A yw'r defnydd o arfau tân ar gyfer hela eithriedig yn cyfrannu at fanteision economaidd ar gyfer pobl Cymru? |
| Cymru Gydnerth | A yw'r defnydd o arfau tân i reoli plâu'n cyfrannu at gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol? | A yw'r defnydd o arfau tân ar gyfer gweithgareddau trydydd partïon ar ein tir yn cyfrannu at amgylchedd naturiol bioamrywiol? | A yw'r defnydd o arfau tân ar gyfer hela eithriedig yn cyfrannu at gynnal amgylchedd biomrywiol? |
| Cymru Iachach | Sut mae rheoli effeithiau plâu ar yr amgylchedd yn cyfrannu at iechyd a llesiant? | A yw gweithgareddau saethu'n darparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at lesiant corfforol a/neu feddyliol? | Sut mae hela eithriedig yn cyfrannu at iechyd a llesiant pobl Cymru? |
| Cymru o Gymunedau Cydlynus | A yw rheoli effeithiau plâu'n datblygu neu'n cynnal cydberthnasau cymunedol â Cyfoeth Naturiol Cymru? | Sut mae gweithgareddau trydydd partïon ag arfau tân ar ystad Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar ddatblygu cymunedau cydlynol? | Sut mae caniatáu hela eithriedig ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru yn adeiladu cydlyniad cymunedol mewn ardaloedd gwledig? |
| Cymru â Diwylliant Bywiog | A yw rheoli plâu i gynnal yr ecosystemau ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu at ddiwylliant Cymru? | A yw gweithgareddau trydydd partïon ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu at ddiwylliant a threftadaeth Cymru? | A yw hela eithriedig yn cyfrannu at gynnal diwylliant Cymru? |
| Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | A yw'r defnydd o arfau tân i reoli tir yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant Cymru a'r tu hwnt? | A yw'r defnydd o arfau tân mewn gweithgareddau trydydd partïon ar dir Cyfoeth Naturiol | A yw'r defnydd o arfau tân ar gyfer rheoli tir yn gyfrifol mewn cyd-destun byd- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cymru yn cyfrannu at lesiant Cymru a'r tu hwnt? | eang? |
| Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | A oes opsiynau hyfyw eraill i ddefnyddio arfau tân ar gyfer rheoli plâu mewn modd cynaliadwy? | Sut mae gweithgareddau saethu'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol? | A oes opsiynau hyfyw eraill i hela eithriedig ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli effeithiau plâu ar fuddiannau tirfeddianwyr cyfagos mewn modd cynaliadwy? |

## 6. Sut a phryd i gyflwyno eich tystiolaeth

Bydd yr adolygiad yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir ac yn datblygu cynigion ar gyfer y defnydd o arfau tân ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y cynigion hyn yn ffurfio ymgynghoriad cyhoeddus am y materion a godir. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi datganiad ynglŷn â'i safbwynt ar y defnydd o arfau tân.

Bydd yr alwad am dystiolaeth hon ar agor rhwng 6 Chwefror 2017 a 30 Ebrill 2017.

Cyflwynwch eich tystiolaeth i:
Shooting.review@naturalresourceswales.gov.uk
Adolygiad.saethu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu i
Adolygiad Saethu
Cyfoeth Naturiol Cymru
d/o Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

### Sylwer: er mwyn bod yn glir ac yn agored

Efallai y bydd yr holl ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys enwau'r ymatebwyr ac adroddiadau neu ddogfennau a dderbyniwn, ar gael yn gyhoeddus ac efallai y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC (os bydd hawlfraint yn caniatáu). Ymhellach, efallai y byddwn yn rhannu unrhyw ymatebion, adroddiadau neu ddogfennau a dderbyniwn gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau dull cydgysylltiedig o safbwynt yr ymgynghoriad.

Fe fydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch inni’n cael ei defnyddio a’i storio’n unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Dim ond at ddibenion yr ymgynghoriad hwn y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth. Os credwch fod unrhyw wybodaeth a roddwyd gennych yn eich ymateb i’r ymgynghoriad yn sensitif neu’n gyfrinachol, dylech esbonio pam fel rhan o’ch ymateb. Fodd bynnag, mae CNC yn rhwym wrth Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, ac efallai y bydd yn rhaid inni roi gwybodaeth, ar gais, i drydydd partïon.

## Atodiad 1

| Egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol | | |
|---|---|---|
| | Rheoli addasol | rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny’n briodol, newid gweithredoedd. |
| | Graddfa | ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu; |
| | Cydweithio a denu | hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt |
| | Cyfranogiad Cyhoeddus | gwneud trefniadau priodol i’r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| | Tystiolaeth | ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch. |
| | Buddiannau lluosog | ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau. |
| | Hirdymor | ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd. |
| | Gweithredu’n ataliol | cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau. |
| | Adeiladu gwytnwch | ystyried gwytnwch ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol:<br>(i) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;<br>(ii) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;<br>(iii) graddfa ecosystemau;<br>(iv) cyflwr ecosystemau;<br>(v) gallu ecosystemau i addasu. |

Mae rhagor o wybodaeth yn ein llyfryn, sy'n cyflwyno egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Atodiad 2

Mae'r Amcanion Llesiant fel a ganlyn:

*Cymru lewyrchus – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ynghylch newid hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn rhoi cyfleoedd am gyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith da.*

*Cymru gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol a chanddo ecosystemau sy'n gweithredu'n iach ac yn cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, a'r gallu i addasu yn wyneb newidiadau (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).*

*Cymru iachach – Cymdeithas lle sicrheir bod llesiant corfforol a meddyliol pobl mor uchel â phosibl, a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiadau sy'n fuddiol i iechyd yn y dyfodol.*

*Cymru sy'n fwy cyfartal – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir cymdeithasol-economaidd a'u hamgylchiadau).*

*Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau deniadol, llewyrchus, diogel a chysylltiedig.*

*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon ac adloniant.*

*Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried p'un a allai gwneud rhywbeth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.*

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

---

[1] Adnoddau Naturiol

Yn y Rhan hon, mae "adnoddau naturiol" yn cynnwys (ond nad ydynt yn gyfyngedig i) y canlynol—

(a) anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill

(b) aer, dŵr a phridd

(c) mwynau

(ch) nodweddion a phrosesau daearegol

(d) nodweddion ffisiograffigol

(dd) nodweddion a phrosesau hinsoddol.